

CTM2030 Community Leaders' Network

Rhwydwaith Arweinwyr Cymunedol CTM2030

Datblygu Cymunedau
Iachach Gyda'n Gilydd

Building Healthier
Communities Together

CTM2030
Ein Hiechyd
Ein Dyfodol
DANHACHU CYMUNEDAU
IACHACHU GYDA'N GILYDD



CTM2030
Our Health
Our Future
BUILDING HEALTHIER
COMMUNITIES TOGETHER



Penawdau a chamau gweithredu o gyfarfod Rhwydwaith Arweinwyr Cymunedol CTM2030 (24 Ionawr 2025)

Trosolwg o'r cyfarfod

Rydym wedi clywed a deall eich adborth; eich bod am gael mwy o ran wrth lunio agendâu cyfarfodydd. Yn ymateb i hyn, dilynodd cyfarfod mis Ionawr fformat llac, gan ganiatáu ar gyfer trafodaethau mwy agored a rhyngweithiol.

Nod y sesiwn oedd gosod blaenoriaethau sy'n cael eu rhannu ar gyfer y Rhwydwaith Arweinwyr Cymunedol ar gyfer 2025, gan atgoffa'n glir pa mor bwysig yw partneriaethau cymunedol ac iechyd cryf i wella canlyniadau iechyd y boblogaeth. Roedd pwyslais cryf yn y cyfarfod ar fesur effaith gweithio mewn partneriaeth. Mae hyn, ynghyd â'r themâu allweddol, y syniadau a'r camau nesaf a ddeilliodd o'n sgysiau wedi'u cynnwys yn yr adroddiad cryno hwn. Byddwn yn adeiladu ar y rhain ac yn eu gweithredu dros y flwyddyn i ddod. Bydd darllen [pecyn sleidiau'r cyfarfod](#) yn eich helpu i ddehongli'r adroddiad hwn.

Rhan 1 y drafodaeth

- Ailedrych ar flaenoriaethau CTM ar gyfer 2023 a thu hwnt, ac archwilio'r themâu sydd wedi cael eu nodi fel rhai pwysig gan ein cymunedau er mwyn dylanwadu ar ganlyniadau iechyd a lles poblogaeth da.

Rhan 2 y drafodaeth

- Datblygu dealltwriaeth glir o bwrpas a chyfleoedd twf y Rhwydwaith, gan gynnwys:

- Pennu nodau partneriaeth 2025 i wella canlyniadau iechyd y boblogaeth
 - Mesur gweithio mewn partneriaeth yn erbyn canlyniadau diriaethol
 - Nodi cyfleoedd ar gyfer twf Rhwydwaith
-

Crynodeb o bynciau trafod a chamau gweithredu

1. Blaenoriaethau CTM

Darparodd Paul Mears, Prif Weithredwr, grynodedb o feysydd blaenoriaeth a ffocws y bwrdd iechyd ar gyfer cyflawni ei strategaeth sefydliadol: *CTM2030 - Creu Cymunedau Iachach Gyda'n Gilydd* (gweler sleid 2) [LINK]. Hefyd, rhoddodd Linda Prosser, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Thrawsnewid, ddiweddariad byr ar gynnydd y gwaith adeiladu parhaus i atgyweirio to Ysbyty Tywysoges Cymru (YTC) (gweler [y Cwestiynau Cyffredin](#) am y cefndir).

2. Nodi themâu cymunedol o bwysigrwydd

Rhannodd Rachel Rowlands, Aelod Annibynnol dros Gymuned CTM, restr o **saith prif thema sydd wedi cael eu nodi o bwysigrwydd** i bobl sy'n byw yn CTM ([gweler sleidiau 3-7](#)). Mewn cyd-destun, mae'r saith thema wedi'u casglu gan y bwrdd iechyd dros gyfnod o ddwy flynedd o ymgysylltu parhaus â'r gymuned drwy sgysiau â sefydliadau ac arweinwyr cymunedol; ac ymgysylltu'n uniongyrchol ag aelodau'r cyhoedd, i'n helpu i ddeall y penderfynyddion i *fyw'n hapus ac yn iach* yn CTM).

Roedd arweinwyr cymunedol i adolygu'r themâu a diweddarau os oedd unrhyw beth ar goll (gweler sleidiau 3-7). O ganlyniad, cafodd y pwyntiau canlynol eu hamlygu fel rhai ar goll / neu angen eu cryfhau:

- Mwy o ffocws ar iechyd sy'n cael ei effeithio gan dlodi
- Cefnogaeth / addysg i rieni a theuluoedd
- Niwroamrywiaeth – mynediad cyfartal
- Celfyddydau ar gyfer iechyd a lles

- Dylanwad ar feddygon teulu a mynediad at wasanaethau / archwilio'r cwmpas i *greu tîm amlddisgyblaethol o amgylch meddygon teulu?*

Yn ogystal, cafodd y pwyntiau canlynol eu hawgrymu fel pwyntiau ffocws ar gyfer mesur a chyflawni canlyniadau diriaethol:

- Canolbwyntio ar holl benderfynyddion allweddol iechyd ([crynodeb](#) ac [adroddiad llawn](#)) .
- Gwell rhannu data a gwybodaeth ar draws y sector cyhoeddus a rhwng sefydliadau trydydd sector, er mwyn targedu poblogaethau allweddol (unigolion a grwpiau) yn effeithiol a nodi cynulleidfaoedd hanfodol.
- Gwneud penderfyniadau ar y cyd i gefnogi gwell profiad y claf
- Dull cryfach o werthuso, gyda straeon cleifion a data atgyfeirio cadarn
- Cyfathrebu: beth sydd ar gael/gellir ei rannu o fewn y Rhwydwaith, a rhwng ei aelodau
- Gwneud y defnydd gorau o'r partneriaethau a ffurfiwyd drwy'r Rhwydwaith i greu'r cyfle mwyaf ar gyfer newid
- Defnyddio syniadau / gwersi newydd o COVID
- Tyfu'r Rhwydwaith: nodi cyfleoedd i sefydliadau gefnogi pobl i gysylltu â'i gilydd
- Dysgwch o fodelau trydydd sector o weithio mewn partneriaeth:
 - Mwy o astudiaethau achos o'r trydydd sector
 - Sesiynau sbotolau ar gyfer grwpiau cymunedol
- Adeiladu mecanweithiau ar gyfer rhoi adborth yn seiliedig ar y canlyniadau sydd wedi cael eu cyflawni gan y Rhwydwaith
- Canolbwyntio ar fodelau ariannu cynaliadwy ar gyfer y sector cymunedol / gwirfoddol

3. Pennu nodau partneriaeth a meysydd ffocws ar y cyd

Agorodd Rachel Rowlands drafodaethau bwrdd yn canolbwyntio ar osod nodau 2025 y Rhwydwaith a chyfleoedd partneriaeth. Gofynnwyd i arweinwyr cymunedol:

- Cyflwyno eu hadborth ar y meysydd partneriaeth y bydden nhw'n eu blaenoriaethu, a pham

- Nodi sut y credan nhw y gellid mesur llwyddiant yn erbyn y blaenoriaethau hyn.

4. Adeiladu ein Rhwydwaith a chyflawni canlyniadau clir trwy weithio mewn partneriaeth

Jonathan Morgan, Cadeirydd, CTM:

- Gwahodd pobl i rannu unrhyw uchafbwyntiau o fod yn rhan o'r Rhwydwaith hyd yma, a'r gwahaniaeth y mae gweithio mewn partneriaeth wedi'i wneud
- Gwahodd pawb i ystyried pwy sydd ar goll o'r Rhwydwaith
- Gofyn i bobl ystyried pa gamau uniongyrchol y gallan nhw eu cymryd i sicrhau bod y bobl iawn yn cael eu cynnwys ac yn ymgysylltu mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

Canlyniadau Cyfarfodydd

Daeth dwy thema i'r amlwg fel meysydd blaenoriaeth ar gyfer gweithredu mewn partneriaeth, ac i ddylanwadu ar ganlyniadau iechyd yn y dyfodol – **Brechu a Diogelu Iechyd** a **Mynediad at Wybodaeth**.

1. Brechu a Diogelu Iechyd

Roedd hyrwyddo pwysigrwydd brechu a diogelu iechyd ar draws cymunedau, trwy sefydliadau a grwpiau cymunedol lleol, wedi'i nodi gan bawb fel cyfle ar y cyd i newid canlyniadau iechyd i bobl agored i niwed ar gyfer gaeaf '25/26. Roedd cydnabyddiaeth y byddai llwyddiant yn ei gwneud yn ofynnol i arweinwyr cymunedol gael mynediad at yr wybodaeth a'r asedau diogelu iechyd cywir, gyda gwybodaeth a chymorth yn cael eu cydgysylltu gan dimau iechyd cyhoeddus lleol y bwrdd iechyd.

Gweithredu: mae **gweithgor iechyd a diogelwch** cymunedol newydd yn cael ei sefydlu i gynyddu nifer y bobl sy'n cael eu brechu fel blaenoriaeth er mwyn cadw pobl yn ddiogel y gaeaf nesaf a thu hwnt. Bydd gofyn i aelodau'r rhwydwaith roi adborth ynghylch a fydden nhw'n helpu i godi proffil diogelu rhag brechu yn eu sefydliadau a'u grwpiau cymunedol eu hunain.

Os hoffech wirfoddoli, neu ddarganfod mwy, e-bostiwch Natasha.weeks2@wales.nhs.uk

2. **Mynediad at wybodaeth**

Cynyddu ymwybyddiaeth gymunedol (trwy ein Rhwydwaith cymunedol) o sut i gael mynediad at wybodaeth i gefnogi iechyd a lles. Fel rydym wedi gweld o'r blaen, mae gwybodaeth symlach sy'n hawdd ei chyrchu ac y gellir ymddiried ynddi wedi dod i'r amlwg fel prif faes adborth o'r sesiwn.

Gweithredu: mae **gweithgor cyfathrebu ac ymgysylltu iechyd a chymunedol** newydd yn cael ei sefydlu i wella mynediad at wybodaeth trwy ein [Hyb Arweinwyr Cymunedol](#) penodedig. Bydd gofyn i aelodau'r rhwydwaith rannu eu sgiliau a'u profiad, adborth a barn, ar beth sy'n gweithio'n dda a beth nad yw'n gweithio'n dda o fewn eu sefydliadau, grwpiau a lleoliadau lleol. Mae'r adborth hwn yn hanfodol i gyflawni'r newidiadau pwysig hyn i gymunedau ledled ardal CTM.

Rydym yn eich gwahodd i wirfoddoli i gymryd rhan yn y gwaith hwn – anfonwch e-bost at Natasha.weeks2@wales.nhs.uk i gymryd rhan.

Tyfu ein Rhwydwaith

Roedd yr aelodau'n cydnabod pwysigrwydd y Rhwydwaith, a'i botensial i ysgogi gwelliannau yn iechyd y boblogaeth trwy ddull partneriaeth gymunedol. Rydym yn awyddus i gynnwys cymaint o arweinwyr newydd â phosibl cyn ein cyfarfod nesaf ym mis Ebrill – felly helpwch ni i estyn allan i sefydliadau newydd!

Cam gweithredu:

- Ydych chi'n gwybod am unrhyw sefydliad nad yw'n ymwneud â'r Rhwydwaith ar hyn o bryd, ond pwy ddylai fod yn eich barn chi? Anfonwch unrhyw fanylion at Natasha.weeks2@wales.nhs.uk

- Cymerwch eiliad i roi gwybod i ni am unrhyw gysylltiadau neu bartneriaethau newydd y mae eich sefydliad wedi'u ffurfio o ganlyniad i'ch ymwneud â Grŵp Rhwydwaith Arweinwyr Cymunedol CTM. Bydd tynnu sylw at y gwahaniaeth y mae wedi'i wneud i'ch sefydliad / grŵp, neu i'r bobl sy'n defnyddio'ch gwasanaethau, yn helpu i hyrwyddo gwerth y Rhwydwaith i sefydliadau eraill a allai feddwl am gymryd rhan.
-

Rhagor o Wybodaeth

1. Dyddiadau Cyfarfodydd yn y Dyfodol

- Dydd Gwener 11 Ebrill - 9.30- 11.30am - Pen-y-bont ar Ogwr, Neuadd y Seiri Rhyddion
- 18 Gorffennaf 2025 - Merthyr - manylion i'w cadarnhau
- 24 Hydref 2025 - RhCT - manylion i'w cadarnhau
- 23 Ionawr 2026 – Pen-y-bont ar Ogwr - manylion i'w cadarnhau

2. Hyb Arweinwyr Cymunedol CTM

Mae ein papurau diweddaraf a gwybodaeth ategol o'n cyfarfod ym mis Tachwedd wedi'i gyhoeddi ar [hwb Rhwydwaith Arweinwyr Cymunedol CTM2030](#). Mae'r newyddion CTM diweddaraf bob amser ar gael ar ein [gwefan](#).

Cwestiynau pellach

Cysylltwch â Natasha.weeks2@wales.nhs.uk